# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Rhagfyr 2018

Amser: 14.30 - 15.22

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5024

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AC (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AC<br>Mandy Jones AC<br>Dai Lloyd AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Katie Wyatt |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Dawn Bowden AC a Lee Waters AC.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 2.1 SL(5)282 - Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2018

### 2.2 SL(5)283 - Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon arnynt.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE

### 3.1 SL(5)281 - Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) (Diwygio) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad er mwyn tynnu sylw at faterion o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

## 4 Offerynnau Statudol sy'n gofyn am Ganiatâd yn unol â Rheol Sefydlog 30A - Ymadael yr UE

### 4.1 SICM(5)6 - Rheoliadau Meinweoedd Dynol (Ansawdd a Diogelwch at Ddefnydd mewn Bodau Dynol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol.

### 4.2 SICM(5)7 - Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol.

## 5 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 5.1 WS-30C(5)24 - Rheoliadau Trapiau Dal Coesau a Mewnforio Crwyn (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

### 5.2 WS-30C(5)25 - Rheoliadau Anifeiliaid Ceffylaidd (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

### 5.3 WS-30C(5)26 - Rheoliadau Diogelwch ac Ansawdd Gwaed (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

### 5.4 WS-30C(5)27 - Rheoliadau Cynhyrchion Organig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

### 5.5 WS-30C(5)28 - Rheoliadau Dileu a Rheoli Afiechydon Milheintiol (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2018

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

### 5.6 WS-30C(5)30 - Rheoliadau Rheolau Darpariaethau Cyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

## 6 Papurau i’w nodi

### 6.1 Llythyr gan y Llywydd ynghylch diwygio'r Cynulliad: cymhwysedd deddfwriaethol

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Llywydd.

### 6.2 Gohebiaeth rhwng Senedd y DU a Llywodraeth y DU ynghylch llif offerynnau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth sy'n ymwneud â llif offerynnau a wneir o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018.

### 6.3 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid: Y Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Amaethyddiaeth y DU : Adroddiad Drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd i ystyried fersiwn ddiwygiedig yn y cyfarfod nesaf.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol)

Nododd y Pwyllgor y briff a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil a chytunodd i drefnu sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet ddechrau mis Ionawr.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Pysgodfeydd

Nododd y Pwyllgor y briff a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil a chytunodd i drefnu sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Ionawr.

## 11 Bil Deddfwriaeth: Dull craffu Cyfnod 1 (yn amodol ar gyflwyno'r Bil)

Cytunodd y Pwyllgor ar ei dull craffu Cyfnod 1 ac i gyhoeddi galwad cyffredinol am dystiolaeth yr wythnos hon. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i roi gwahoddiadau i randdeiliaid i ofyn iddynt ddarparu tystiolaeth lafar ym mis Ionawr.

## 12 Blaenraglen waith

Bu'r Pwyllgor yn trafod ei flaenraglen waith amlinellol ar gyfer y Flwyddyn Newydd.